# Y WLEDD AR DDIWEDD AMSER

*Llythyr Bugeiliol at Deulu Asaph oddi wrth yr Esgob: Hydref 2021*

LOVE bade me welcome; yet my soul drew back,
Guilty of dust and sin.
But quick-eyed Love, observing me grow slack
From my first entrance in,
Drew nearer to me, sweetly questioning
If I lack'd anything.

'A guest,' I answer'd, 'worthy to be here:'
Love said, 'You shall be he.'
'I, the unkind, ungrateful? Ah, my dear,
I cannot look on Thee.'
Love took my hand and smiling did reply,
'Who made the eyes but I?'

'Truth, Lord; but I have marr'd them: let my shame
Go where it doth deserve.'
'And know you not,' says Love, 'Who bore the blame?'
'My dear, then I will serve.'
'You must sit down,' says Love, 'and taste my meat.'
So I did sit and eat.

Un o'm hoff gerddi yw un gan George Herbert, diwinydd a gweinidog Anglicanaidd o'r ail ganrif ar bymtheg. Gyda'r teitl "Love (III)", i mi, mae'n ddehongliad o galon yr Efengyl – y Newyddion Da yr ydym ni fel Cristnogion yn cael ein galw i'w gyhoeddi.

Siaradodd Iesu ei hunan am Deyrnas Dduw fel gwledd, y parti mawr, y bydd Duw yn ei gynnal ar ddiwedd y byd hwn ac y fydd yn sefydlu'r nesaf. Yng ngherdd Herbert, mae *Love* [Cariad] (Duw ei hun) yn ein gwahodd i'r weld nefol hon.

Fodd bynnag, fel sy'n cael ei ddangos yn yr Ysgrythurau, mae yna broblem, yr hyn y mae'r diwinyddion yn ei alw ein "pechod" cynhenid. Mewn geiriau eraill, mae nam yng nghalon ein bodolaeth sy'n gwneud pob un ohonom yn llai na pherffaith, yn anghymwys ar gyfer y nefoedd. Mae testun y gerdd – "Fi" – yn sylweddoli'r broblem: mae wedi difrodi'r ddelwedd ddwyfol yn ei fywyd ac mae'n "guilty of dust and sin" (euog o lwch a phechod), felly ni fydd y cywilydd hwnnw (edifeirwch, efallai, i ni) yn ei adael i fynd i mewn i'r wledd.

Eto, ble mae'r Beibl yn dangos problem, mae'r Beibl hefyd yn dangos ateb: "Carodd Duw y byd gymaint nes iddo roi ei unig Fab, er mwyn i bob un sy'n credu ynddo ef beidio â mynd i ddistryw ond cael bywyd tragwyddol." *(Ioan 3.16).* Yn y gerdd, mae Cariad yn ysgwyddo pechod a chywilydd y byd: "Pwy gariodd y bai?" Cyfeiriad yw hyn at aberth Duw ohono'i hun yn Iesu ar y groes, ble mae Duw yn cymryd arno'i hun holl boen, bai a chost methiannau dynol ryw *(Colosiaid 2.13,14)* ac yn talu pris iachawdwriaeth, y pris mynediad i'r wledd. Gweddïo'r gerdd hon, a'i gwneud yn gerdd i chi, yw bod yn Gristion.

Diben canolog yr Eglwys yw byw i'r addewid hwn a gwahodd eraill i'w fyw hefyd. Mae Duw'n hiraethu amdanom yn y wledd dragwyddol, nad yw'r un ohonom yn gymwys i fynd i mewn, ond trwy'i gariad a'i ras, trwy'i aberth, mae'r ffordd yn cael ei hagor, petaen ni ond yn derbyn bod y pris wedi'i dalu. Y cyfnewid sydd wrth galon yr Efengyl, y newyddion da o iachawdwriaeth: dyma yw ystyr iachawdwriaeth ac mae'n disgleirio trwy'r Testament Newydd fel disgrifiad o weithred Duw yn Iesu. "Dyma gariad: nid ein bod ni'n caru Duw, ond ei fod ef wedi ein caru ni, ac anfon ei Fab i fod yn foddion ein puredigaeth oddi wrth ein pechodau." (*1 Ioan 4.10*)
"Os yw Duw o'n plaid, pwy a all fod yn ein herbyn?" *(Rhufeiniaid 8.31).* Pa well gwahoddiad allai fod?

Wrth i ni ddod allan o'r cyfnod clo a mynd, unwaith eto, yn at ein cenhadaeth, sef y diben oedd gan Dduw wrth ein hanfon i'r byd, gadewch i ni gofio fod cyhoeddi cymod trwy'r Groes wrth galon popeth rydym ni'n ei gredu ac yn ei wneud. Dyma Efengyl yr Arglwydd ac agor drysau ein calonnau led y pen i Iesu yw'r un weithred, yn fwy nag unrhyw beth arall, rydym yn cael ein galw iddo.